Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

CADEIRYDD/CHAIRMAN: JOHN LLOYD JONES OBE • PRIF WEITHREDWR/CHIEF EXECUTIVE: ROGER THOMAS

*Anfonwch eich ateb at/Please reply to:* Roger Thomas, Prif Weithredwr/Chief Executive
Cyfeiriad Isod/Address Below
Llinell Union/Direct Dial: (01248) 385568; Ffacs/Fax: (01248) 385506
Ebost/Email: n.sanpher@ccw.gov.uk

Pwyllgor ar y GCD Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff
Swyddfa Deddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

21 Medi 2007

Annwyl Syr/Madam

**YMGYNGHORIAD: GORCHYMYN CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL ARFAETHEDIG YN YMWNEUD Â DIOGELU'R AMGYLCHEDD A RHEOLI GWASTRAFF**

Ar ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru carwn fynegi ein diolch am y cyfle i gymryd rhan yn y broses ymgynghori ar fersiwn drafft y GCD uchod. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn credu bod ein amgylchedd naturiol yn sylfaenol i'n dysg, ein diwylliant, ein gwaith a'n hamdden, ei fod yn ganolog i ansawdd ein bywydau ac yn hanfodol i'n holl fodolaeth.

Felly rydym yn croesawu'r GCD drafft hwn yn gynnes iawn, gan ei fod yn ymdrech i ymestyn pwerau'r Cynulliad o fewn maes diogelu'r amgylchedd ac oherwydd mai hwn yw'r ail GCD o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf), mae'n cadarnhau yn ddiamau pa mor bwysig i Gymru yw ein hamgylchedd naturiol.

Mae ein hymateb yn edrych ar agweddau ar y GCD drafft sydd yn uniongyrchol berthnasol i'n cylch gorchwyl, gan ganolbwyntio felly ar Bwynt 6.2 *Diogelu'r Amgylchedd, yn cynnwys llygredd, aflonyddwch a sylweddau peryglus.* Er nad ydym yn cyflwyno sylwadau manwl ar Bwynt 6.1, rydym er hynny yn llwyr gefnogi ymgyrch y Cynulliad i ennill cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol o safbwynt ailgylchu a rheoli gwastraff yn gynaladwy. Rydym wedi cyfyngu ein sylwadau i sgôp y GCD drafft ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cynulliad i ddatblygu Mesurau manwl yn ystod y broses ddilynol o fynd â'r ddeddfwriaeth drwodd i'r eithaf.

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol; byddwn yn falch o gyfrannu ymhellach os bydd galw am hynny.

Yr eiddoch yn gywir

**Roger Thomas**
**Prif Weithredwr**

Amg

Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

**CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU**
**COUNTRYSIDE COUNCIL FOR WALES**

# SYLWADAU AR YR YMGYNGHORIAD: Y GORCHYMYN CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL ARFAETHEDIG AR DDIOGELU'R AMGYLCHEDD A RHEOLI GWASTRAFF

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**1. A fyddai telerau'r Gorchymyn arfaethedig yn caniatáu ar gyfer gweithredu agenda'r polisi ar reoli gwastraff a diogelu'r amgylchedd trwy gyfrwng Mesurau? Os na fyddai, ym mha fodd y byddai'n ofynnol ail ddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig a pham?**

**2. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys Tabl yn nodi rhai eithriadau o sgôp Materion 6.1 a 6.2 – gweler cynnwys rhifau 1, 2, 12, 13, 14, 15, 16 a 18. A yw'r eithriadau hyn yn gymwys? Os nad ydynt, ym mha fodd y dylid eu hail ddrafftio a pham?**

**3. A yw telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi eu drafftio yn addas, yn rhy gyfyng ynte yn rhy eang? Os byddai hynny'n angenrheidiol, ym mha fodd y dylid ail ddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig a pham?**

## Sgôp y Gorchymyn (Cwestiynau 1 a 2)

Nid yw'r Gorchymyn drafft ei hun na'r Memorandwm Eglurhaol yn cynnwys diffiniad o'r term 'diogelu'r amgylchedd'. Mae'r Memorandwm Eglurhaol yn cyfeirio at nifer o Ddeddfau llywodraethol sy'n berthnasol, yn cynnwys Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sydd, yn ychwanegol at faterion fel llygredd, rheoli gwastraff a sbwriel, yn cynnwys Cadwraeth Natur a Materion Cefn Gwlad (Rhan 7) gan awgrymu dehongliad eang o sgôp 'diogelu'r amgylchedd'.

Mae'r materion a amlinellir yn y tabl eithriadau o fewn y Gorchymyn arfaethedig yn dangos ymhellach beth yw sgôp Mater 6.2 o safbwynt 'diogelu'r amgylchedd'. Hefyd mae defnyddio'r gair 'cynnwys' ym Mater 6.2 yn dangos bod 'llygredd, aflonyddwch a sylweddu peryglus' wedi eu cynnwys fel enghreifftiau yn unig o faterion y gellid eu trafod o fewn ystyr ehangach 'diogelu'r amgylchedd'. Felly, mewn termau cyfreithiol, gellid dehongli 'diogelu'r amgylchedd', fel y cyfeirir ato o fewn y Gorchymyn drafft, i olygu ystod ehangach o feysydd polisi na'r rhai y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Eglurhaol (paragraffau 13, 14 a 15)

Mae rhai darpariaethau eraill wedi eu hamlinellu yn Atodlen 5, Maes 6 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Amgylchedd) (Annecs 2) a fyddai'n ymddangos fe pe byddent wedi eu cynnwys o dan 'diogelu'r amgylchedd', er enghraifft 'Diogelu cynefinoedd naturiol'. Er bod cyfeiriad at fioamrywiaeth, cadwraeth natur a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a materion eraill yn unigol yn Atodlen 5, Maes 6 (Amgylchedd), ond heb eu nodi'n benodol yn y Gorchymyn drafft, rydym ni yn casglu nad yw hyn yn rhwystr i'w hystyried o fewn sgôp 'diogelu'r amgylchedd'

Wrth ddehongli'r Gorchymyn drafft , felly, rydym ni ar ddeall bod 'diogelu'r amgylchedd' (fel y cyfeirir ato ym Mater 6.2) yn eang ei sgôp. Ar sail y rhagosodiad hwn, byddai'r Gorchymyn drafft yn caniatáu i'r Cynulliad ddatblygu Mesurau ar feysydd polisi sydd yn ehangach na'r rhai a nodir yn y Memorandwm Eglurhaol (paragraffau 13, 14, a 15).

**Crynodeb o'r casgliadau ar Gwestiynau 1 a 3**

- Mae'n ofynnol ystyried dehongliad (sgôp) 'diogelu'r amgylchedd' o fewn y Gorchymyn drafft, gan roi sylw arbennig i'r materion a nodir yn Atodlen 5, Maes 6 yn Neddf 2006. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y gellid ei ddehongli fel yn cyfeirio at ystod ehangach o feysydd polisi na'r rhai y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Eglurhaol (paragraffau 13, 14, a 15: Sgôp). Byddai Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cefnogi diffiniad eang ac eglur o 'diogelu'r amgylchedd', sydd yn cynnwys yr holl faterion ym Maes 6 (Amgylchedd), ac yn cynnwys – o blith diddordebau Cyngor Cefn Gwlad Cymru - ein treftadaeth naturiol (bywyd gwyllt a thirweddau). Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cymryd bod 'diogelu'r amgylchedd' yn golygu 'adfer, cynnal a gwella'r amgylchedd'. Byddai datganoli cymhwysedd yn y meysydd polisi hyn yn hyrwyddo gweithrediad llwyddiannus yr agenda polisi ehangach fel y nodir yn Strategaeth Amgylchedd Cymru. Byddai hefyd yn galluogi'r Cynulliad i gryfhau deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gadwraeth Natur, Bywyd Gwyllt a Bioamrywiaeth, byddai hyn yn cydnaws â'r agwedd a geir yn yr Alban (Deddf Cadwraeth Natur (Yr Alban) 2004).

- Os yw'r cynnig am ddatblygu Mesurau i wella ansawdd yr amgylchedd yn lleol, dylid rhoi ystyriaeth i ddiwygio Mater 6.2 er mwyn darparu ar gyfer 'gwella' neu 'ychwanegu at' yr amgylchedd yn hytrach na'i 'ddiogelu' yn unig. Wrth drafod y diwygiad arfaethedig hwn dylid nodi nad yw cynigion ar gyfer diwygiadau i Ddeddf 2006, Atodlen 5 ar ffurf Materion, wedi eu cyfyngu i faterion a nodir ym Maes 6: Amgylchedd.

- Mae'n ofynnol rhoi ystyriaeth i ddehongli (sgôp) 'diogelu'r amgylchedd' o fewn y Gorchymyn drafft ac adnabod 'agenda'r polisi' fel bo'n addas.

- Ar hyn o bryd, nid yw testun Mater 6.2 o'r Gorchymyn drafft yn adlewyrchu ehangder y meysydd polisi a nodir yn benodol yn Strategaeth Amgylchedd Cymru o safbwynt ansawdd yr amgylchedd yn lleol. Os yw'r LCO yn mynd i alluogi'r Cynulliad i ddatblygu Mesurau sy'n fwy perthnasol i agenda polisi ar ansawdd yr amgylchedd yn lleol fel y nodir yn y WES, dylid rhoi ystyriaeth i ddiwygio Mater 6.2 yn y Gorchymyn neu ychwanegu Mater ychwanegol i gynnwys y geiriad perthnasol h.y. 'mannau gwyrdd' a 'tirwedd'. Fodd bynnag, mae ystyried cynigion ar gyfer diwygio'r Gorchymyn drafft yn ddibynnol i raddau helaeth ar y dehongliad o sgôp 'diogelu'r amgylchedd'.

- Mae'n aneglur a fyddai'n bosibl datblygu Mesurau addas ar gyfer materion mannau gwyrdd a thirwedd o fewn sgôp y Gorchymyn drafft , heb wneud diwygiadau perthnasoli Atodlen 5, Maes 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006: Cynllunio Gwlad a Thref .

- O safbwynt cryfhau rheolaeth dros lygredd, ystyrir bod Mater 6.2 yn ddigonol.

**Y Materion a Eithriwyd (Cwestiwn 2 yn yr ymgynghoriad)**

- Mae'r eithriadau yn nodi bod gan y Gorchymyn drafft y grym i alluogi'r Cynulliad i ddatblygu Mesurau o dan Mater 6.2 (ac eraill) ar feysydd polisi ehangach na'r rhai a nodir yn y Memorandwm Eglurhaol (Paragraffau 13, 14 a 15: Sgôp). Er enghraifft, nodir y gellid datblygu Mesurau o dan Mater 6.2 (Diogelu'r amgylchedd, yn cynnwys llygredd, aflonyddwch a sylweddau peryglus) o safbwynt rheoli harbyrau, dociau, pierau a llithrfeydd (Mater 15 yn y tabl) a'r defnydd o gerbydau modur oddi ar y ffordd (Mater 2 yn y tabl). Mae'n ofynnol bod yn glir ynghylch sgôp y gorchymyn mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd morol, gan roi sylw arbennig i bolisi Morol yr UE a'r Mesur Morol sydd i ddod.

- Felly mae angen trafodaeth bellach ar sgôp y Gorchymyn drafft (cyfeirier at Gwestiynau 1 a 3) cyn y gellir asesu os yw'r materion eithriedig yn addas ai peidio. Byddai unrhyw ddiwygiadau i'r Gorchymyn drafft (a Mater 6.2 yn benodol) yn golygu ystyriaeth bellach o addasrwydd y materion eithriedig.

***Cyngor Cefn Gwlad Cymru***
***Countryside Council for Wales***
Medi 2007